**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd

**Cyfarfod aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw / MS Teams**

**Dydd Iau 18 Ionawr 2024 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd (wyr)** | **Y Cynghorydd (wyr)** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C R Doyle | W G Lewis | S J Rice |
| W G Thomas | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Stuart Davies | Pennaeth Priffyrdd a Chludiant |
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Bob Fenwick | Arweinydd Grŵp Cynnal a Chadw Priffyrdd |
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Lisa Jones | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd A Stevens, Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: P Lloyd, N L Matthews a T M White

---

## 26 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 27 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023 fel cofnod cywir.

## 28 Cynnal a chadw'r isadeiledd ffyrdd

Cyflwynodd yr Arweinydd Grŵp Cynnal a Chadw Priffyrdd adroddiad a oedd yn nodi swyddogaethau, safonau a gweithgareddau gweithredol y Grŵp Cynnal a Chadw Priffyrdd mewn perthynas â'i waith ar gynnal a chadw isadeiledd ffyrdd.

Nododd yr Aelodau ased ffordd gerbydau'r priffyrdd, y gofynion statudol sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth, atgyweiriadau arferol, atgyweiriadau cynnal a chadw cynlluniedig, draenio priffyrdd, rheoli asedau, heriau a chyfleoedd a risgiau yn y dyfodol.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Blaenraglen Waith Priffyrdd
- Atgyweiriadau cynnal a chadw cynlluniedig (adweithiol ac ataliol, dulliau asesu a systemau sgorio, deunyddiau ar gyfer dulliau atgyweirio, y rhaglen PATCH a'r gwahanol raglenni trin ar gyfer pob ffordd benodol).
- Draenio'r briffordd.
- Cynnal a chadw troedffyrdd/llwybrau troed.
- Grantiau Llywodraeth Cymru a chyllid y Cyngor.
- Cyllidebau Cymunedol yr Aelodau.
- Gweithio ar y cyd rhwng Parciau a Phriffyrdd.
- Heriau'r dyfodol a ffyrdd newydd o weithio

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd Grŵp Cynnal a Chadw Priffyrdd, Pennaeth Priffyrdd a Chludiant ac Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd am gymryd rhan ac am fod yn bresennol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cynnydd mewn perthynas â chynnal a chadw'r isadeiledd ffyrdd.

## 29 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd 'er gwybodaeth' ar gyfer 2023-2024.

Nodwyd y pynciau i'w trafod yn y cyfarfod dilynol:

- 29 Chwefror 2024

Rhaglen Cyflwyno Rhagor o Dai.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.06pm

Cadeirydd